OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 361 (Cy. 110)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *am 4.03 p.m. ar 19 Mawrth 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *am 6.00 p.m. ar 19 Mawrth 2021* |
| *Yn dod i rym - -* | *am 4.00 a.m. ar 20 Mawrth 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B, 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

## RHAN 1

## Cyffredinol

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 20 Mawrth 2021.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei roi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

# RHAN 2

## Diwygiadau

**Diwygiadau i Reoliadau Teithio Rhyngwladol (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020**

**2.** Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**Diwygiad i reoliad 10**

**3.** Yn rheoliad 10 (gofynion ynysu: eithriadau), ar ôl paragraff (4)(m) mewnosoder—

"(n) os yw cwnstabl yn ei gwneud yn ofynnol iddo wneud hynny."

**Diwygiadau i reoliad 12E**

**4.**—(1) Mae rheoliad 12E (mesurau ychwanegol sy'n gymwys i bersonau sy'n teithio o wlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (2)(d)—

(a) ar ôl paragraff (i) mewnosoder—

"(ia) paragraffau 7 i 10;";

(b) mae paragraff (ii) wedi ei hepgor.

(3) Ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(3A) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo gofyniad i ynysu (o fewn yr ystyr a roddir gan reoliad 10(2)) yn cael ei osod ar P pan fo P wedi dod i Gymru a'i fod wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod sy'n dechrau â'r degfed diwrnod cyn y dyddiad y mae P yn cyrraedd Cymru.

(3B) Pan fo paragraff (3A) yn gymwys—

(a) mae rheoliadau 7, 8, 9 a 10 yn gymwys i P gyda'r addasiadau ym mharagraffau (3C) i (3F);

(b) mae'r gofyniad i ynysu sydd wedi ei osod ar P fel y'i haddesir gan baragraffau (3C) i (3F) hefyd wedi ei osod ar bob aelod o aelwyd P.

(3C) Mae rheoliad 7 yn gymwys fel pe bai—

(a) ym mharagraff (1), cyfeiriadau at "gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt" yn gyfeiriadau at "gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A";

(b) paragraff (4)(b) wedi ei hepgor.

(3D) Mae rheoliad 8 yn gymwys fel pe bai—

(a) ym mharagraff (1), cyfeiriadau at "gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt" yn gyfeiriadau at "gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A";

(**2**) O.S. 2020/574 (Cy. 132), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/942, O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (Cy. 277), O.S. 2020/1232 (Cy. 278), O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286), O.S. 2020/1329 (Cy. 295), O.S. 2020/1362 (Cy. 301), O.S. 2020/1477 (Cy. 316), O.S. 2020/1521 (Cy. 325), O.S. 2020/1602 (Cy. 332), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/24 (Cy. 8), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/48 (Cy. 11), O.S. 2021/50 (Cy. 12), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/72 (Cy. 18), O.S. 2021/95 (Cy. 26); O.S. 2021/154 (Cy. 38) ac O.S. 2021/305 (Cy. 78).

(b) paragraff (2)(b) wedi ei hepgor.

(3E) Mae rheoliad 9 yn gymwys fel pe bai'r canlynol wedi ei roi yn lle paragraff (2)—

"(2) Nid yw rheoliadau 7 ac 8 yn gymwys i berson a ddisgrifir yn rheoliad 12E(2)."

(3F) Mae rheoliad 10 yn gymwys fel pe bai—

(a) ym mharagraff (3), "baragraff (4)" wedi ei roi yn lle "baragraff (4)(b) i (k)";

(b) y canlynol wedi ei roi yn lle paragraff (4)—

"(4) Caniateir i P ymadael â'r fangre a bod y tu allan iddi am gyhyd ag y bo'n angenrheidiol—

(a) i deithio at ddiben gadael Cymru;

(b) i geisio cynhorthwy meddygol, pan fo angen y cynhorthwy hwnnw ar frys neu yn unol â chyngor ymarferydd meddygol cofrestredig;

(c) i osgoi salwch, anaf, neu risg arall o niwed;

(d) i fodloni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i'r llys neu fodloni amodau mechnïaeth, neu i gymryd rhan mewn achos cyfreithiol;

(e) pan fo P yn blentyn nad yw'n byw ar yr un aelwyd â rhieni P, neu ag un o rieni P, i barhau â threfniant sydd eisoes yn bodoli er mwyn cael mynediad at, a chyswllt rhwng, P a rhieni P, ac at ddibenion yr is-baragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys person nad yw'n rhiant i P, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros P, neu sy'n gofalu amdano;

(f) am resymau tosturiol, gan gynnwys i fynd i angladd—

(i) aelod o deulu P;

(ii) ffrind agos;

(g) at ddiben cael prawf am y coronafeirws a ddarperir neu a weinyddir o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**3**);

(h) os yw cwnstabl yn ei gwneud yn ofynnol iddo wneud hynny.""

**Diwygiadau i reoliad 13**

**5.** Yn lle rheoliad 13 (gorfodi gofyniad i ynysu) rhodder—

"**13.**—(1) Pan fo gan berson awdurdodedig sail resymol dros gredu bod person ("P") wedi ymadael â'r lle y mae'n ynysu ynddo, neu ei fod y tu allan iddo, yn groes i reoliad 7(3) neu 8(3)(b) caiff y person awdurdodedig—

(a) cyfarwyddo P i ddychwelyd i'r fangre y mae P yn preswylio ynddi;

(b) pan fo'r person awdurdodedig yn gwnstabl, symud P ymaith i'r fangre y mae P yn preswylio ynddi;

(c) pan fo'r person awdurdodedig yn gwnstabl ac nad yw'n ymarferol neu'n briodol o dan yr amgylchiadau cymryd y cam yn is-baragraff (a) neu (b), symud P ymaith i fangre wedi ei threfnu gan Weinidogion Cymru sy'n addas i P breswylio ynddi at ddibenion rheoliad 7(3) neu 8(3)(b).

(**3**) 2006 p. 42.

(2) Pan fo gan berson awdurdodedig sail resymol dros gredu bod P yn berson sy'n dod o fewn rheoliad 12E(3A), caiff person awdurdodedig wneud unrhyw un neu ragor o'r canlynol at ddiben sicrhau bod P yn cydymffurfio â gofyniad yn rheoliadau 7 ac 8—

(a) rhoi cyfarwyddyd i P, gan gynnwys cyfarwyddyd—

(i) bod P yn aros mewn ardal benodol o borthladd i aros i gael ei gludo i fangre benodedig;

(ii) bod P yn symud i le penodol er mwyn mynd ar gludiant i fangre benodedig;

(iii) bod P yn mynd ar gludiant er mwyn teithio i fangre benodedig;

(iv) bod P yn aros yn y fangre y mae P yn preswylio ynddi;

(b) symud P ymaith i fangre benodedig.

(3) Pan fo gan berson awdurdodedig sail resymol dros gredu bod P yn berson sy'n dod o fewn rheoliad 12E(3A) a bod P wedi cyflawni trosedd o dan reoliad 14(1)(g), caiff y person awdurdodedig—

(a) ei gwneud yn ofynnol i P ddangos ei basbort neu ei ddogfen deithio i'w archwilio neu ei harchwilio,

(b) cadw P am hyd at dair awr,

(c) cynnal chwiliad o P ac unrhyw baciau sy'n perthyn i P neu sydd o dan reolaeth P, neu unrhyw gerbyd y mae P wedi teithio ynddo, am dystiolaeth, ac eithrio eitemau sy'n ddarostyngedig i fraint gyfreithiol, sy'n ymwneud â chyflawni trosedd bosibl o dan reoliad 14(1)(g), a

(d) ymafael mewn unrhyw ddogfen neu wrthrych a ganfyddir mewn chwiliad o dan is-baragraff (c) a'i chadw neu ei gadw.

(4) Nid yw paragraff (3) yn rhoi pŵer i gadw neu gynnal chwiliad o blentyn sydd ar ei ben ei hun.

(5) Rhaid i unrhyw chwiliad o dan baragraff (3) gael ei gynnal gan berson awdurdodedig sydd o'r un rhywedd â P.

(6) Nid yw paragraff (3) yn rhoi pŵer i gynnal chwiliad o ran bersonol o'r corff.

(7) Caiff person awdurdodedig sy'n arfer y pŵer ym mharagraff (1)(b) neu (c), (2)(b) neu (3) ddefnyddio grym rhesymol, os yw hynny'n angenrheidiol, wrth arfer y pŵer.

(8) Pan fo P yn blentyn, a'i fod wedi ymadael â'r fangre y mae'n preswylio ynddi, neu'r tu allan iddi, a'i fod yng nghwmni unigolyn sy'n gyfrifol amdano—

(a) caiff person awdurdodedig gyfarwyddo'r unigolyn hwnnw i fynd â P i'r fangre y mae P yn preswylio ynddi, a

(b) rhaid i'r unigolyn hwnnw, i'r graddau y bo hynny'n rhesymol ymarferol, sicrhau bod P yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan berson awdurdodedig i P.

(9) Pan fo P yn blentyn, a bod gan berson awdurdodedig sail resymol dros gredu bod P yn methu â chydymffurfio â gofyniad yn rheoliad 7 neu 8 yn fynych, caiff y person awdurdodedig gyfarwyddo unrhyw unigolyn sy'n gyfrifol am P i sicrhau, i'r graddau y bo hynny'n rhesymol ymarferol, bod P yn cydymffurfio â'r gofyniad.

(10) Caiff person awdurdodedig gymryd unrhyw gamau eraill y mae'r person awdurdodedig yn ystyried eu bod yn angenrheidiol ac yn gymesur i hwyluso arfer pŵer a roddir i'r person awdurdodedig gan y rheoliad hwn.

(11) Ni chaiff person awdurdodedig arfer pŵer a roddir i'r person awdurdodedig gan y rheoliad hwn oni fo'r person awdurdodedig yn ystyried ei fod yn ddull angenrheidiol a chymesur o sicrhau y cydymffurfir â gofyniad yn rheoliad 7 neu 8.

(12) At ddibenion y rheoliad hwn—

ystyr "mangre benodedig" ("*specified premises*") yw mangre a bennir o dan reoliad 7 neu fangre y bernir ei bod yn addas o dan reoliad 8;

ystyr "person awdurdodedig" ("*authorised person*") yw—

(a) cwnstabl, neu

(b) at ddibenion paragraffau (2), (3) a (10) yn unig, swyddog mewnfudo."

**Diwygiadau i Atodlen 3A**

**6.**—(1) Mae Atodlen 3A (gwledydd a thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer y cofnodion ar gyfer "Gweriniaeth Mauritius" a "Portiwgal".

(3) Yn y lleoedd priodol mewnosoder—

"Ethiopia"

"Oman"

"Qatar"

"Somalia".

*Vaughan Gething*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Am 4.03 p.m. ar 19 Mawrth 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol").

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod sydd i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau hyn.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 10 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i ddarparu y caiff person y mae'n ofynnol iddo ynysu adael ei fangre ynysu os yw cwnstabl yn ei gwneud yn ofynnol iddo wneud hynny.

Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phersonau nad ydynt yn esempt sy'n dod i Gymru ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A i'r Rheoliadau Teithio Ryngwladol o fewn 10 niwrnod o gyrraedd. Mae'r personau hynny wedi eu gwahardd rhag dod i Gymru. Mae person sy'n torri'r gwaharddiad hwn yn agored i hysbysiad cosb benodedig o £10,000. Mae rheoliad 4 yn gwneud darpariaeth yn ymwneud â'r gofynion ynysu sydd ar y personau hynny ac unrhyw aelod o'u haelwydydd. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth i esemptio personél hedfan a phersonél morwrol penodol rhag y gwaharddiad rhag dod i Gymru.

Mae rheoliad 5 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r pwerau gorfodi sydd ar gael o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol mewn perthynas â'r gofynion i hunanynysu. Mae'n caniatáu i swyddogion yr heddlu gyfarwyddo personau neu eu symud ymaith i le y maent yn ynysu ynddo os ydynt yn amau'n rhesymol bod y person yn torri gofyniad i ynysu. Mae hefyd yn darparu pwerau i bersonau awdurdodedig gan gynnwys yr heddlu, swyddogion mewnfudo, a phersonau eraill a ddynodir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â phersonau nad ydynt yn esempt yr amheuir eu bod yn dod i Gymru ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A. Mae'r pwerau hyn yn cynnwys pwerau i gyfarwyddo, cadw a chynnal chwiliad.

Mae rheoliad 6 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 3A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, sy'n cynnwys y rhestr o wledydd a thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol. Mae personau nad ydynt yn esempt wedi eu gwahardd rhag dod i Gymru pan fônt wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir o fewn 10 niwrnod o gyrraedd yn unol â rheoliad 12E o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae rheoliad 6 yn hepgor Portiwgal a Gweriniaeth Mauritius o'r Rhestr yn Atodlen 3A, ac yn ychwanegu Ethiopia, Oman, Qatar a Somalia ati.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.